# Ffermio Organig yng Nghymru

## Beth yw ffermio organig ?

Dyma ddull o ffermio sydd yn anelu at fod yn ddiogel a chynaladwy trwy alluogi ffermwyr i feithrin cnydau ac anifeiliaid iach heb orfod dibynnu ar brynu porthiant a gwrtaith artiffisial. Ceisia ffermio organig i gyflawni hyn trwy wneud defnydd doeth o garthion anifeiliaid a chylchdroi cnydau er mwyn cynnal pridd ffrwythlon, a defnyddio dulliau sy'n gytûn â'r amgylchedd er mwyn rheoli pla a phryfed, a dibynnu ar ewigod a chorynnod i ddifa pryfed niweidiol. Mae anifeiliaid sydd ar ffermydd organig yn mwynhau safon uchel o hwsmonaeth, ac oherwydd hyn nid oes rhaid pwyso ar wrthfiotigau a chyffuriau eraill i'w cadw'n iach. Mantais i gefn gwlad yw ffermio organig; nid yw'n ychwanegu at lygredd afonydd ac y mae'n hybu bioamrywiaeth, iechyd y cyhoedd a'r economi lleol.

Dim ond cynnyrch a dyfir ar dir sydd wedi trosi dros gyfnod arbennig (dwy flynedd fel arfer) y gellir ei werthu fel cynnyrch organig, ac mae'r ffermwyr hyn yn cael arolwg gan un o'r cyrff dilysu yn aml, er mwyn cael caniatâd i ddefnyddio'r symbol organig.

## Pa mor bwysig yw ffermio organig yng Nghymru?

Ar ddiwedd mis Mehefin 2002 roedd ychydig dros 600 fferm wedi eu cofrestru, naill ai'n llwyr organig neu yn y broses o drosi. Ffermwyr anifeiliaid/da byw yw'r mwyafrif, a'r canran fwyaf yn gofalu am ddefaid a gwartheg bîff, a'r gweddill yn cadw gwartheg llaeth. Maent yn ffermio arwynebedd o 59,000 ha, sef 3.4% o dir Cymru. Mae Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi gosod targed o gael 10% o'r tir yn organig erbyn 2005, ac mae'n cynnig cymorth ariannol i ffermwyr i'w cynorthwyo dros gyfnod y trosi, yn ogystal â chefnogi gweithgaredd mudiadau eraill megis Canolfan Organig Cymru. Mae ADC hefyd yn cefnogi ffermio organig ac yn cynorthwyo i farchnata bwydydd organig.

## Beth yw swyddogaeth Canolfan Organig Cymru?

Sefydlwyd Canolfan Organig Cymru yn Aberystwyth yn 2000 er mwyn cynnig gwybodaeth a chyngor ar ffermio organig yng Nghymru. Ariennir y Ganolfan gan Lywodraeth y Cynulliad ac mae'n cydweithredu ag ADAS, *Elm Farm Research Centre,* IGER, y Sefydliad Astudiaethau Gwledig a'r *Soil Association*. Hefyd, yn 2002, mae'n gyfrifol am raglen i ddatblygu ffermio organig ar gyfer Cyswllt Ffermio.

Darperir llinell gymorth gan y Ganolfan sy'n cynnig gwybodaeth technegol i ffermwyr, ffeithlenni, a bwletinau e-bost, ac yn ogystal cyhoeddir gwybodaeth ar y wefan. Gweithreda fel cyfrwng i gasglu gwybodaeth o wahanol ffynonhellau, ac mae'n trefnu cyrsiau technegol ac amrywiaeth o weithgaredd. Y Ganolfan sydd yn cydlynu'r rhwydwaith o ffermydd arddangos ar ran Cyswllt Ffermio, a threfnir dyddiau agored ac ymweliadau â ffermydd yn rheolaidd. Ym Mis Mawrth 2002 cynhaliwyd yn Aberystwyth y gynhadledd gyntaf yn y Deyrnas Unedig ar waith ymchwil organig, cynhadledd a drefnwyd gan y Ganolfan.

## Chwilio am ragor o wybodaeth ?

- Os ydych yn ffermwr â diddordeb mewn trosi, ffoniwch Ganolfan Organig Cymru ar 01970 622100, ac fe anfonwn becyn gwybodaeth atoch a threfnu ymweliad ymgynghorol am ddim.
- I gael gwybodaeth am y gwasanaeth i ffermwyr a ddarperir gan y Ganolfan, gweler ein gwefan, www.organic.aber.ac.uk neu ffoniwch 01970 622248.
- I gael gwybodaeth am fwyd a ffermio organig ledled y D.U. gan gynnwys cyhoeddiadau a ffeithlenni, cysylltwch â Chymdeithas y Pridd / Soil Association, ar 0117 929 0661, neu'r wefan, www.soilassociation.org.



*Cyhoeddwyd gan Canolfan Organig Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion SA 23 3AL. Ffon 01970 622248*

*Ni all Canolfan Organig Cymru a'i phartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail cynnwys ei ffeithlenni na chyhoeddiadau eraill.*